| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Mai 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol, Parth y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Diogelwch Bwyd, Safonau a Chaffael - Diweddariad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Yn dilyn y sgandal cenedlaethol ar gig ceffyl, cychwynnodd Cyngor Sir Ddinbych ymchwiliad i gaffael bwyd cyfredol ac arferion rheoleiddio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn wleidyddol gytbwys, yn cynnwys Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor, i nodi unrhyw risgiau allweddol ac i alluogi gweithdrefnau digonol i fod ar waith i amddiffyn trigolion, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, cartrefi preswyl a mannau eraill dan reolaeth y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sawl gwaith ac adroddwyd ddiwethaf i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Mehefin 2014. Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion ddarparu adroddiad diweddaru mewn tua 12 mis i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion y cytunwyd arnynt yn yr adroddiad hwnnw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud sylw ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion; ac

3.2 ystyried a oes angen adroddiad diweddaru pellach arnynt.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Er hwylustod darllen a chyfeirio, bydd diweddariad yn cael ei ddarparu o ran pob un o'r meysydd gwasanaeth sy'n cyfrannu at y mater o sicrhau cadwyn fwyd ddiogel o fewn y Sir.

<u>**Swyddogaethau Rheoleiddio:**</u>

4.2 Mae Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau mewn perthynas â diogelwch bwyd a safonau bwyd. Mae gennym swyddogion sydd yn gwbl gymwys i ymgymryd â dyletswyddau hylendid bwyd a safonau bwyd ac sy'n bodloni gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae'r ASB hefyd

yn cynnal archwiliadau o'r gwasanaeth, ac Awdurdodau Lleol eraill ledled y DU er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni.

4.3 Mae Swyddogion Diogelwch y Cyhoedd yn ymgymryd â swm sylweddol o safonau bwyd (tarddiad a labelu) arolygiadau a samplo yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Arolygiadau safonau bwyd llawn o'r holl adeiladau risg uchel i fod i gael archwiliad yn ystod 2014/15
- Cynnal amrywiaeth o arolygon samplo safonau bwyd, gan gynnwys profion rhywogaethau cig ar ran ein gwasanaeth prydau ysgol a gwasanaethau cymdeithasol, pysgod ac amnewid caws, profi alergenau cnau mewn prydau bwytai/bwyd cyflym, profi lefelau lliwiau mewn bwyd cyflym a phrofi gwirodydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu hamnewid gyda brandiau rhatach/ffug
- Cymerwyd samplau o wirodydd o 30 o dafarndai er mwyn sicrhau nad oedd cyfnewidiad yn digwydd. Roedd pob sampl yn foddhaol.
- Ymgymerwyd â phrosiect rhanbarthol ar Gig Eidion Cymru, gan gynnwys arolygiadau o siopau cigyddion a phrofion DNA ar gig eidion i wirio a oedd yn dod o Gymru

4.4 Cafodd rhai canlyniadau anfoddhaol mewn perthynas â labelu a chyfansoddiad bwyd eu nodi yn rhai o'r samplau o gig a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, samplau o brydau bwyd cyflym yn cynnwys cnau lle na chafodd hynny ei ddatgan, a lefelau uchel o liwiau mewn prydau bwyd cyflym. Mae adolygiad o'r gwaith a wnaed yn ystod 2014/15 yn tynnu sylw at rai meysydd a fydd yn destun gwiriadau pellach gan ein swyddogion yn ystod y flwyddyn hon, sef rhywogaeth cig, cnau mewn prydau bwyd cyflym, alcohol yn cael ei gyfnewid mewn siopau trwyddedig yn hytrach na mewn tafarnau a phrosiectau rhanbarthol eraill y cytunwyd arnynt.

4.5 Mae camau gorfodi wedi'u cymryd yn erbyn rhai busnesau a ddarganfuwyd eu bod yn torri deddfwriaeth safonau bwyd gan gynnwys llythyrau rhybudd yn dilyn arolygiadau, atafaelu bwyd heb ei labelu a bwyd lle na ellir sefydlu ei darddiad. Cafwyd hefyd erlyniad llwyddiannus yn erbyn perchennog busnes bwyd sy'n gweini bwyd cyflym Indiaidd a oedd yn cynnwys cnau i gwsmer ag alergedd i gnau a ofynnodd am bryd o fwyd heb gnau.

4.6 Mae gwaith pellach hefyd wedi cael ei wneud ar ddarparu hyfforddiant i fusnesau o fewn y Sir ar labelu bwyd. Cafodd deddfwriaeth newydd ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2014 ar ddarparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd ar alergenau mewn bwyd. Rydym yn darparu cyrsiau hyfforddi i fusnesau ar y rheoliadau newydd hyn. Mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei ddarparu i'n Swyddogion Diogelwch Bwyd a Swyddogion Iechyd Anifeiliaid ar safonau bwyd a gorfodi bwyd er mwyn datblygu gwasanaeth rheoleiddio bwyd mwy cydlynol. Bydd swyddogion diogelwch bwyd bellach yn cynnal gwiriadau safonau bwyd yn ystod arolygiadau hylendid bwyd arferol.

4.7 Bu gwasanaeth bwyd y Cyngor hefyd yn destun archwiliad llawn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Gorffennaf 2013. Cafodd y Cyngor yr adroddiad archwilio tua 13 mis ar ôl i'r archwiliad gael ei gynnal ac mae

cynllun gweithredu wedi ei gytuno. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys 39 o argymhellion yr ydym bellach yn gweithio gyda'r ASB i fynd i'r afael â nhw.

4.8 Cyflwynwyd cais a chafodd ei gymeradwyo'n llwyddiannus gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd am arian i wneud gwaith samplu ar draws y Sir. Cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio i ariannu samplo yn ein hysgolion a chartrefi gofal ar ffurfiant rhywogaethau cig, caws ac amnewid pysgod ac alergenau cnau mewn bwyd.

4.9 Gwnaethom lwyddo i gael cyllid ASB ar gyfer mathau eraill o samplo, h.y. samplu cnau a rhywogaeth cig mewn siopau bwyd cyflym.

**Swyddogaethau Caffael:**

4.10 Mae cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng y swyddog safonau bwyd, swyddogion caffael, swyddogion arlwyo ysgolion a swyddogion contractau gwasanaethau cymdeithasol i drafod arolygon samplo, gweithdrefnau caffael bwyd ac unrhyw ganlyniadau o'r samplo a wnaed.

4.11 Ymgymerwyd ag archwiliadau caffael yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys y swyddogion safonau bwyd yn gweithio gyda'r gwasanaeth prydau ysgol i ymgymryd ag archwiliadau safle o fwyd sy'n cael ei gludo i'r safle. Cafodd canlyniadau'r archwiliadau hyn eu hadrodd yn ôl i'r gwasanaeth prydau ysgol.

4.12 Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn trafod yn barhaus gyda Sefydliad Arlwywyr y Brifysgol (TUCO) er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol i'n galluogi i fonitro tarddiad ein bwyd i ysgolion a chartrefi gofal. Bydd hyn hefyd yn golygu cynnwys cymal 'hawl i archwilio' yn y contract.

4.13 Mae creu un pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer pob contract caffael bwyd gan ddefnyddio System Rheoli Contract Proactis bellach wedi'i gwblhau. Mae amrywiaeth o holiaduron a gaiff eu defnyddio gan ddefnyddwyr a chyflenwyr ar y system Proactis wedi cael eu creu ar gyfer monitro perfformiad. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol bellach yn cynnal ymarfer i gael yr holl fanylion contract cyfredol ar y system Proactis a hefyd i gael y cyflenwyr cofrestredig fel y gellir cynnal y gwaith monitro perfformiad yn erbyn contractau. Disgwylir y bydd y system Proactis yn mynd yn fyw ar gyfer defnyddwyr o fis Medi 2015.

4.14 Mae staff yr Uned Caffael Corfforaethol bellach wedi cael eu rhannu i ddelio â chategorïau gwariant penodol sy'n golygu bod Swyddog Caffael pwrpasol bellach yn gyfrifol am fonitro'r holl wariant arlwyo ar draws y Cyngor. Bydd y system dadansoddi gwariant M-Power newydd ar gael ganol mis Gorffennaf, a bydd yn caniatáu i'r swyddog penodol fonitro gwariant arlwyo yn rheolaidd.

4.15 Mae ymarfer Fframwaith Cig bellach wedi'i gwblhau ac mae 9 o gwmnïau ar y fframwaith, fel gwasanaeth arlwyo rydym wedi penderfynu aros gyda Chigoedd Hughes Bangor. Nid yw'r Cyngor wedi cael unrhyw broblemau gyda'r cwmni hwn yn y gorffennol, gallant gyflenwi cig oen a chig eidion o Gymru ac mae pob prawf cynnyrch a wnaed gan y swyddog safonau bwyd

wedi dod yn ôl yn glir ac yn cydymffurfio. Rydym yn defnyddio cyflenwyr sy’n rhoi Sicrwydd y Tractor Coch (Red Tractor Assured) ar gyfer ffiledi cyw iâr, twrci a phorc. Mae cytundeb TUCO bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwi rhai cigoedd ffres wedi'u rhewi i'n cartrefi gofal, gyda'r cyflenwad sy’n weddill yn cael ei gyrchu gan gigydd lleol o Lanelwy sydd â sgôr Diogelwch Hylendid Bwyd o 5. Mae hyn yn cynnwys cyflenwad cig gan Hughes Meats ym Mangor a gaiff ei gyflenwi drwy Woodwards Foods. Cynhelir ymarfer caffael ffurfiol yn y dyfodol er mwyn dyfarnu contract ffurfiol gyda chigyddion lleol.

4.15 Nid yw'r Uned Caffael Corfforaethol yn ymwybodol o unrhyw gwynion/pryderon presennol am ein cyflenwyr bwyd. Fodd bynnag, bydd cyfarfodydd parhaus yn cael eu cynnal gyda swyddogion arlwyo i fonitro hyn yn y dyfodol.

4.16 Fel rhan o'r dadansoddiad gwariant arlwyo, mae contract cydweithredol ar gyfer llenwadau brechdanau yn cael ei gynnal gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint. Felly bydd y gofynion diogelwch bwyd yn cael eu hymgorffori i'r contract yn y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’n ddyletswydd allweddol bod y Cyngor yn diogelu’r gadwyn fwyd a bod preswylwyr yn cael cig a chynnyrch cig dibynadwy y mae modd ei olrhain, yn ogystal â nwyddau defnyddwyr eraill.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau penodol yn gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, bydd cost y gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd a’r gwaith arfaethedig i gael ei wneud yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyflawni o fewn cyllidebau gwasanaeth presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldebau o argymhellion yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed â’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriadau rhwng yr Uned Caffael Corfforaethol, y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Dylai'r costau gael eu cynnwys o fewn yr adnoddau presennol a chyllid grant ar gyfer prosiectau penodol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae’r gwaith a wnaed gan bob gwasanaeth fel rhan o’r adolygiad hwn a’r argymhellion sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi eu dylunio er mwyn lleihau’r risg o ddeunyddiau bwyd o safon isel yn mynd i’r gadwyn fwyd yn Sir Ddinbych.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae erthyglau 6.3.4(b) yn cyfeirio at bwerau Archwilio o ran archwilio materion o’r fath.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd Ffôn: 01824 706350